

Adolygiad Cenedlaethol o'r Defnydd o Drefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DOLS) Yng Nghymru 2014

Cyngor Sir Fynwy
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan

13 – 15 Mai 2014

Gall y cyhoeddiad hwn gael i ei ddarparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd ychydig o oedi wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copi o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Swyddfeydd
Cenedlaethol AGGCC
Swyddfeydd y
Llywodraeth
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydful
CF48 1UZ**

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol:

Ffôn: 0300 7900 126
Ebost: aggcc@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan: www.aggcc.org.uk
Gwefan y Gydarolygiaeth: www.inspectionwales.com

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: hiw@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan: www.hiw.org.uk

**ADOLYGIAD CENEDLAETHOL O'R
DEFNYDD O'R TREFNIADAU DIOGELU
RHAG COLLI RHYDDID YNG NGHYMRU
2014**

**CYNGOR SIR FYNWY
BWRDD IECHYD PRIFYSGOL ANEURIN BEVAN
13 – 15 Mai, 2014**

Yr Adolygiad Cenedlaethol

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer gweithredu a gwneud penderfyniadau ar ran pobl sydd â diffyg galluedd i wneud penderfyniadau drostynt hwy eu hunain. Cafodd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid eu cyflwyno'n ddiweddarach i ddarparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer sefyllfaoedd lle mae rhywun o bosibl yn colli ei ryddid o fewn ystyr erthygl 5 yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Gellir cymhwyso'r Trefniadau Diogelu i unigolion dros 18 oed sydd ag anhwylder meddwl ac nad ydynt yn meddu ar y gallu gwybyddol (galluedd meddyliol) i wneud penderfyniadau drostynt hwy eu hunain.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o'r defnydd o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn yr Awdurdod Lleol (ALI) a'r Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) hwn. Cafodd y gwaith maes ei gwblhau fel rhan o arolygiad thematig cenedlaethol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yng Nghymru. Cynhaliwyd yr arolygiad yn fuan wedi i'r Goruchaf Lys roi dyfarniad yn achos P a Gorllewin Swydd Gaer sydd wedi cyfrannu at gynnydd mewn ceisiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Roedd yr adolygiad cenedlaethol yn cynnwys arolwg o bob BILI ac awdurdod lleol a 3 diwrnod o waith maes a gynhaliwyd mewn 7 awdurdod lleol ac yn yr holl BILlau rhwng mis Ebrill a mis Mai 2014. Bydd y canfyddiadau o'r arolygiadau unigol yn golegu adroddiad trosolwg cenedlaethol gan AGGCC/AGIC a fydd yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

Roedd yr amcanion fel a ganlyn: -

- Canfod a yw'r "Trefniadau Diogelu" yn yr adroddiad monitro cenedlaethol ar y cyd yn effeithiol o ran cadw pobl yn ddiogel ac nad yw'r person perthnasol/unigolion yn colli eu rhyddid yn ddiangen neu heb i drefniadau diogelu priodol gael eu rhoi ar waith.
- Adolygu'r modd y mae'r Cod Ymarfer ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael ei weithredu'n ymarferol a phenderfynu pa un a ddylid diwygio a diweddarau'r canllawiau.
- Ymchwilio i'r hyn sy'n cyfrannu at anghysonderau o ran defnyddio Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar draws y Cynghorau a'r Byrddau Iechyd yng Nghymru.
- Canfod a yw ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn meddu ar yr ymwybyddiaeth, yr wybodaeth a'r sgiliau i gyflawni eu priod gyfrifoldebau i gymhwyso a rheoli Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn effeithiol pan fo'n briodol.
- Deall profiad unigolion a gofawyr
- Adnabod ac adrodd ar arfer da.

Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir Fynwy yn eistedd ochr yn ochr â phedwar awdurdod lleol arall yn yr ardal a adwaenir yn aml fel Gwent yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae ganddo ffin gyffredin â Lloegr i'r de a'r dwyrain. Mae'r Cyngor yn darparu gofal cymdeithasol mewn dau gartref gofal, felly mae ganddo gyfrifoldebau fel corff goruchwyliol¹ ac awdurdod rheoli². Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn gwasanaethu ardal Gwent ar gyfer ei gyfrifoldebau fel corff goruchwyliol ac mae ganddo gyfrifoldebau fel awdurdod rheoli ar gyfer poblogaeth ehangach o gleifion mewnol sy'n cynnwys rhai gwasanaethau ym Mhowys. Mae'n darparu ystod helaeth o wasanaethau gofal ar gyfer cleifion gan gynnwys triniaeth arbenigol. Mae'r ddau sefydliad yn comisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal iechyd yn Lloegr lle gellir defnyddio'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid felly mae ganddynt hefyd gyfrifoldebau fel cyrff goruchwyliol ar gyfer pobl yn y lleoliadau hyn.

Mae'r pum cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn cydariannu Consortiwm Gwent i gynnal tîm annibynnol ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, a letyir gan y Bwrdd Iechyd. Pan gafodd ei sefydlu yn 2009, roedd strwythurau gwahanol yn bodoli o ran y byrddau iechyd, gyda bwrdd iechyd lleol cydffiniol ochr yn ochr â phob cyngor.

Mae pob corff goruchwyliol yn gyfrifol am ystyried argymhellion a phenderfynu a ddylid awdurdodi ceisiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Maent yn dal i fod yn atebol am y swyddogaethau fel cyrff goruchwyliol a gyflawnir ar eu rhan gan dîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Mae swyddogaethau'r tîm yn fras yn cynnwys trefnu a chydgyssylltu prosesau'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid – gan gynnwys derbyn ceisiadau a threfnu asesiadau - a chynghori awdurdodau rheoli. Mae'r tîm yn cyflogi dau Aseswr Budd Pennaf³ llawn-amser a gweinyddwr. Gyda'i gilydd maent yn gweinyddu'r broses, yn cynhyrchu adroddiadau rheolaidd ar berfformiad ac yn cynnig peth hyfforddiant ar draws y gweithlu perthnasol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Mae rheolaeth linell yn eistedd o fewn Is-adran Gofal Sylfaenol a Rhwydweithiau'r Bwrdd Iechyd, sydd ar wahân i'r gwasanaethau a ar gyfer cleifion mewnol.

Yn 2013-14, cafodd y cyngor 10 cais a chafodd y Bwrdd Iechyd 28. Yn 2012-13⁴, cafodd nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gan bob corff goruchwyliol ei ystyried ledled Cymru fel cyfran o 100,000 o'r boblogaeth gan ei gwneud yn bosibl eu cymharu. Yn gymesur â'u priod boblogaethau, cafodd y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd ill dau lefel gymharol isel o geisiadau, er bod y Cyngor wedi cael cyfran uwch na'r ddau gyngor arall yng Nghonsortiwm Gwent.

¹ Gweler y Rhestr Termau am esboniad ar y termau a ddefnyddir mewn deddfwriaeth a chanllawiau

² Gweler y Rhestr Termau

³ Gweler y Rhestr Termau

⁴ Y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid: Adroddiad Monitro Blyneddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. AGGCC ac AGIC, Chwefror, 2014

1. Ansawdd Ceisiadau ac Asesu

Mae'r Cyngor yn darparu ac yn comisiynu nifer o leoliadau mewn cartrefi gofal ar gyfer trigolion Sir Fynwy. Mae cyfanswm y ceisiadau'n isel o'i gymharu â nifer y lleoliadau y gall achos o golli rhyddid fod yn digwydd ynddynt a cheir cartrefi gofal lle nad oes unrhyw geisiadau wedi cael eu gwneud. Roedd yn amlwg bod mwy o geisiadau wedi dod o gartref gofal a reolir gan y gwasanaethau cymdeithasol nag o'r holl gartrefi gofal annibynnol â lleoedd wedi'u comisiynu, sy'n awgrymu ymwybyddiaeth dda o achosion posibl o golli rhyddid. Roedd ceisiadau o gartrefi gofal hefyd wedi'u hysgogi gan dimau amlddisgyblaethol rhyddhau o'r ysbyty wrth iddynt wneud cynlluniau i leoli'r person perthnasol mewn gofal 24 awr gan nad oedd dychwelyd i'w gartref ei hun yn ddewis cynaliadwy mwyach.

Amrywiol oedd ansawdd y ceisiadau a archwiliwyd; roedd yr enghreifftiau gorau'n eglur o ran amcanion yr achos o golli rhyddid, ac roeddent wedi cydnabod yn briodol yr angen am awdurdodiad brys, tra bod asesiadau'n cael eu gwneud. Roedd enghreifftiau nad oeddent yn cyrraedd y safonau hyn, gydag ychydig o fanylion neu fethiant i gydnabod bod achos o golli rhyddid eisoes yn digwydd (Byddai disgwyl i awdurdodau rheoli fod wedi sefydlu awdurdodiad brys dan yr amgylchiadau hyn). O fewn y ffeiliau achosion a samplwyd, roedd y ceisiadau i'r Bwrdd lechyd yn disgrifio cleifion ag amgylchiadau cymhleth iawn lle'r oedd Deddf lechyd Meddwl 1983⁵ yn aml yn cael ei hystyried ochr yn ochr â darpariaethau'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Roedd y ceisiadau i'r Cyngor yn symlach ac yn ymwneud â phobl hŷn ag afiechydon megis dementia a oedd wedi symud o'u cartrefi eu hunain i gartref gofal ond nad oeddent yn derbyn y trefniadau newydd.

Roedd yr asesiadau yn y ffeiliau achosion a archwiliwyd yn rhai o ansawdd da, gydag archwiliad trylwyr o amgylchiadau ac argymhellion wedi'u cyflwyno'n dda gan Aseswyr Budd Pennaf. Er y bu trefniadau i'r gwaith hwn gael ei rannu gan gronfa o Aseswyr Budd Pennaf a oedd yn cael eu darparu gan bob cyngor yn y Consortiwm, roedd yr Aseswyr Budd Pennaf a oedd yn gwneud yr asesiadau'n dod o dîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar y cyfan. Am sawl mis, dim ond un Aseswr Budd Pennaf oedd yn y tîm, a hwnnw'n gweithio dan bwysau sylweddol.

Canfuwyd nifer o wallau mewn dogfennaeth nad oeddent wedi cael eu canfod ar unrhyw gam gan gynnwys y cam awdurdodi. Roedd hyn yn cynnwys camsillafu enw llofnodwr dynodedig y Cyngor fel corff goruchwyliol ar gyfer awdurdodiadau a dyddiadau angenrheidiol wedi'u gadael yn wag. Mae angen cryfhau'r broses sicrhau ansawdd i sicrhau dilysrwydd yr holl awdurdodiadau, gyda'r corff goruchwyliol sy'n awdurdodi'n cymryd cyfrifoldeb cyfartal am hyn.

⁵ Gweler y Rhestr Termau

Roedd gan ychydig o'r staff gwaith cymdeithasol y cyfwelwyd â hwy brofiad o geisiadau i'r Llys Gwarchod⁶ dan ofynion ehangach y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Mae'r tîm cyfreithiol sy'n gweithio i'r Cyngor yn gwneud y ceisiadau i'r Llys ac yn cydweithio'n agos gyda'r gweithwyr cymdeithasol trwy gydol y broses. Nid yw'r Bwrdd Iechyd na'r Cyngor wedi atgyfeirio unrhyw bersonau perthnasol at y Llys er mwyn iddo adolygu achos o golli rhyddid.

2. Ansawdd Canlyniadau

Roedd ansawdd ac ystod y gwasanaethau mewn cartrefi gofal a oedd ar gael i'r personau perthnasol⁷ y cysylltwyd â hwy yn foddhaol o leiaf, gyda rhai'n darparu gofal ardderchog. Lle y bo'n hysbys bod cyfleusterau addas ar gael y tu allan i'r ardal, mae'r rhain yn cael eu comisiynu. Mae rhai teuluoedd hefyd yn comisiynu gofal ar gyfer eu perthnasoedd lle nad ydynt yn gymwys i gael cyllid gan y Cyngor. Daw'r trefniadau hyn i sylw'r Cyngor os yw'r awdurdod rheoli ar gyfer y cartref gofal yn adnabod achos o golli rhyddid. Fodd bynnag, nid yw'r person perthnasol yn cael gwarchodaeth ychwanegol ar ffurf trefniadau gan y Cyngor ar ffurf trosolwg ac adolygiadau rheoli gofal os yw'n ariannu ei ofal ei hun. Mae'r Cod Ymarfer yn nodi bod disgwyl i'r awdurdod rheoli fonitro'r canlyniadau i'r person perthnasol yn dilyn awdurdodi achos o golli rhyddid ac, os oes angen, sbarduno adolygiad dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Daw trefniadau adolygu annibynnol ehangach trwy ofynion i fod â throsolwg ar y modd y rheolir gofal sy'n deillio o ganllawiau eraill.

Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth mewn cartrefi gofal yn adlewyrchu'r Trefniadau Diogelu a oedd wedi cael eu rhoi ar waith i amddiffyn y personau perthnasol. Roeddent hefyd yn adlewyrchu'r angen i ystyried pa un a oedd gan unigolyn y galluedd i gydsynio i agweddau ar ofal. Ychydig o amodau yr oedd Aseswyr Budd Pennaf yn eu hatodi wrth eu hargymhellion ac efallai fod hyn yn egluro'r diffyg adolygiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Nid oedd unrhyw adolygiadau wedi cael eu cynnal o'r awdurdodiadau o fewn y sampl. Roedd adolygiadau rheoli gofal yn cael eu cynnal yn ôl y disgwyl ond nid oeddent yn cyfeirio'n benodol at yr achos awdurdodedig o golli rhyddid.

Gwelodd arolygwyr enghraifft lle'r oedd y Cyngor yn gyfrifol am fonitro'r achos o golli rhyddid (gan ei fod yn rheoli'r cartref gofal) a bod ganddo felly gyfrifoldebau fel awdurdod rheoli yn ogystal â throsolwg ar y modd y rheolir y gofal. Roedd y gofal am y claf o ddydd i ddydd yn dda ond ychydig o fonitro ychwanegol oedd yn digwydd o ganlyniad i'r awdurdodiad dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, er enghraifft mewn perthynas â'r mewnbwn gan y cynrychiolydd person perthnasol⁸. Nid oedd y trefniadau rheoli gofal yn cydymffurfio â gweithdrefnau'r Cyngor ei hun, gan nad oedd gweithiwr cymdeithasol gweithredol mewn sefyllfa statudol. Hefyd, roedd yr adolygiad

⁶ Gweler y Rhestr Termiau

⁷ Gweler y Rhestr Termiau

⁸ Gweler y Rhestr Termiau

rheoli gofal yn hwyr ac felly nid oedd yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol.

Mae gofal ar gyfer cleifion mewnol a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd yn cynnwys sbectwm eang o gyflyrau. Yn y rhan fwyaf o'r ffeiliau achosion a archwiliwyd, roedd canlyniadau gofal a thriniaeth naill ai'n gadarnhaol iawn neu'n gadarnhaol. Nid oedd unrhyw adolygiadau penodol o achosion awdurdodedig o golli rhyddid. Mewn nifer o achosion, roedd yr unigolyn yn dychwelyd adref unwaith yr oedd y driniaeth wedi'i chwblhau. Lle'r oedd gofal preswyl 24 awr wedi dod yn angenrheidiol, roedd y lleoliad priodol wedi cael ei drefnu wrth ryddhau'r claf. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn ysgogi cais gan y cartref gofal. Mae rhagweld yr angen i beri i'r person perthnasol golli ei rhyddid mewn modd cyfreithlon yn arfer da cyn belled â bod dewis llai cyfyngol wedi cael ei ystyried.

3. Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaethau, Cleifion a Gofalwyr

Ar ran yr holl gyrff goruchwyliol o fewn y Consortiwm, mae tîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cynhyrchu llythyrau at yr unigolyn, ei ofalwyr a phersonau eraill â buddiant a enwir gan yr Aseswr Budd Pennaf. Caiff y rhain eu llofnodi gan lofnodwyr dynodedig o fewn y corff goruchwyliol priodol. Mae'r llythyrau'n egluro canlyniadau asesiadau ac yn datgan pa un a yw argymhelliad yr Aseswr Budd Pennaf wedi cael ei dderbyn ai peidio. Roedd gwallau mewn rhai o'r llythyrau hyn, er enghraifft roedd gwybodaeth wedi'i chynnwys nad oedd ond yn gymwys i rywun mewn cartref gofal yn Lloegr, pan oedd y cartref gofal yng Nghymru.

Mae gwefan y Bwrdd Iechyd yn cynnig gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd am y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn arbennig, yn ogystal â dolenni i wefannau perthnasol gan y Llywodraeth. Dywedwyd wrth arolygwyr y byddai gwefan y Cyngor yn cynnig gwybodaeth debyg, ond wrth chwilio ar y Rhyngrwyd gan gyfeirio at y Trefniadau Diogelu ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw wybodaeth. Fe greodd tîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid daflen wybodaeth fanwl, a oedd ar gael ar ffurf copi caled ac yn electronig i'r Cynrychiolwyr Person Perthnasol, ym mis Awst 2013. Mae'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut i apelio wrth y Llys Gwarchod⁹. Nid oedd yn eglur pa un a yw Cynrychiolwyr Person Perthnasol wedi rhoi unrhyw adborth ar ei heffeithiolrwydd. Mae cyswllt ag un teulu'n awgrymu nad oedd y Cynrychiolydd Person Perthnasol yn yr achos hwnnw wedi deall ei gyfrifoldebau'n llawn.

Mae atgyfeiriadau at y gwasanaeth Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol¹⁰ yn cael eu hysgogi ar y cyfan gan yr Aseswyr Budd Pennaf yn nhîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Mae atgyfeiriadau ar gyfer ardal y Cyngor yn is nag y byddai nifer y ceisiadau dan y Trefniadau Diogelu

⁹ Gweler y Rhestr Termiau

¹⁰ Gweler y Rhestr Termiau

rhag Colli Rhyddid yn ei deilyngu o bosibl (er nad yw pawb yn gymwys). Mae'r gwasanaeth Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol hefyd yn ymdrin ag agweddau eraill ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol lle gwneir niferoedd uwch o atgyfeiriadau. Mae perthnasoedd rhwng Aseswyr Budd Pennaf ac Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol yn effeithiol gyda pherthnasoedd gweithio da. Rhoddodd awdurdodau rheoli adborth cadarnhaol hefyd lle maent wedi cael cyswllt ag Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol, sy'n cynrychioli'r person perthnasol pan fo angen.

Siaradodd dau deulu gydag arolygwyr am eu profiad o'r Trefniadau Diogelu pan oedd angen i aelodau o'u teulu golli eu rhyddid. Er eu bod yn teimlo rhyddhad bod yr aelod o'u teulu bellach yn ddiogel a'u bod yn credu bod angen gofal 24 awr, mynegodd y ddau ohonynt dristwch nad oedd yr aelodau o'u teuluoedd wedi cael mynd yn ôl i'w lleoliadau mewn cartrefi gofal. Gall rôl cynrychiolydd y person perthnasol fod yn gyfrifoldeb ychwanegol ac roedd un aelod o deulu'n falch bod cyfaill i'r teulu wedi ymgymryd â'r rôl. Roedd merch i berson arall yn gweithredu fel y Cynrychiolydd Person Perthnasol ac yn teimlo'n weddol ynysig, gan nad oedd ymwneud gweithredol gan weithwyr cymdeithasol. Fodd bynnag, gan fod angen cefnogaeth emosiynol arni nid oedd yn meddwl bod angen cyngor Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol arni.

Roedd y personau perthnasol, eu cynrychiolwyr a'u teuluoedd yn cael gwybodaeth gan yr Aseswyr Budd Pennaf yn nhîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid am asesu ac awdurdodiadau. Ar ôl i awdurdodiad gael ei roi, gall y Cynrychiolydd Person Perthnasol ofyn i'r gwasanaeth Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol am gyngor, er ein bod wedi canfod mai ychydig oedd wedi gwneud hynny. Mae'n ofynnol i awdurdodau rheoli gynnig cymorth, gwybodaeth a chynghor i'r personau perthnasol a'u teuluoedd, ond nid oedd pob un wedi cyflawni'r cyfrifoldeb hwn yn llawn. Lle maent yn chwarae rhan weithredol, gellir gofyn i reolwyr gofal am gymorth hefyd ond roedd lefel yr arbenigedd a oedd ar gael yn anghyson. Rhaid i awdurdodau rheoli sicrhau bod eu rheolwyr a'u staff yn meddu ar yr wybodaeth angenrheidiol i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Nid oedd y naill gorff goruchwyliol na'r llall wedi cael unrhyw gwynion am weithrediad proses y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Nid yw'r daflen wybodaeth yn cynnwys unrhyw gyfeiriad penodol at gyfleu cwyn a dylid unioni'r hepgoriad hwn. Mae gwybodaeth ar y Rhyngrwyd yn cyfeirio at gwynion cyffredinol yn unig.

Roedd tystiolaeth bod cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi cael eu hystyried yn y lleoliadau mewn cartrefi gofal a wnaed gan y Cyngor a'r cynlluniau gofal a ddilynodd. Mewn ysbytai, anghenion y claf o ran gofal a thriniaeth oedd fwyaf tebygol o bennu ble a sut yr oedd yn cael y rhain, ond roedd darpariaeth ar gyfer anghenion ac amgylchiadau, cefndir a diwylliant yr unigolyn wedi cael ei gwneud hefyd. Yn y ffeiliau achosion a archwiliwyd, roedd arolygwyr yn gallu gwirio bod sylw priodol wedi cael ei roi i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Roedd hyn i'w weld yn y defnydd o'r opsiynau lleiaf cyfyngol yng ngofal rhai cleifion a

oedd yn profi anawsterau dros dro o ran gwneud penderfyniadau ynghylch eu gofal a'u lles.

Ni chynhaliwyd cyfarfod gyda rhanddeiliaid yn ystod yr arolygiad hwn gan nad oedd y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn ystyried bod grŵp cynrychiadol ar gael i ymgynghori â hwy.

4. Ansawdd y Gweithlu

Y gweithlu sy'n ymwneud yn fwyaf uniongyrchol â gweithredu'r Trefniadau Diogelu yw aelodau o dîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, meddygon Adran 12¹¹, arweinwyr strategol a llofnodwyr awdurdodiadau ym mhob corff goruchwylol a, lle y bo'n briodol, Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol. Rheolwyr a staff mewn lleoliadau sy'n awdurdodau rheoli (ysbytai a chartrefi gofal) yw'r grŵp allweddol arall y mae angen iddynt fod yn ymwybodol o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a'r gofynion sy'n berthnasol iddynt. Mewn gwasanaethau cymdeithasol, mae angen i dimau asesu a rheoli gofal fod yn gyfarwydd â gofynion cyfreithiol hefyd, gan gynnwys egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol.

Bu nifer o newidiadau i dîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ers ei sefydlu, gan gynnwys trefniadau o ran y gweithle a rheolaeth llinell. Dim ond yn ddiweddar y dechreuodd y rheolwr llinell ar gyfer gwasanaethau iechyd gyflawni'r rôl. Mae holl aelodau'r tîm yn cael eu cyflogi gan y Bwrdd Iechyd. Mae disgwyl bod yr Aseswyr Budd Pennaf o fewn tîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn darparu hyfforddiant ar gyfer eraill pan allant. Gwelsom adborth da o sesiynau hyfforddi a roddwyd.

Mae'r tîm yn darparu cymorth gweinyddol a werthfawrogir yn fawr gan weinyddwr sy'n aelod hirsefydlog o'r tîm, ond tarfwyd ar hyn gan afiechyd dros y misoedd diwethaf. Mae dau Aseswr Budd Pennaf yn y tîm ar hyn o bryd, y mae un ohonynt yn Uwch Aseswr Budd Pennaf gyda dyletswyddau ychwanegol fel cydgysylltydd y tîm. Mae'r naill yn Aseswr Budd Pennaf achrededig ac yn nyrs iechyd meddwl. Mae'r llall yn nyrs iechyd meddwl dra chymwys, nad yw wedi gallu cwblhau'r hyfforddiant achrededig ar gyfer Aseswyr Budd Pennaf eto. I weithio bob ochr i'r ffin, mae angen i Aseswyr Budd Pennaf gydymffurfio â rheoliadau gwahanol yng Nghymru a Lloegr. Oherwydd pwysau gwaith, ychydig o amser fu iddynt roi sylw i'w hanghenion eu hunain o ran hyfforddiant a datblygiad.

Er gwaethaf eu cefndiroedd a'u cymhwysedd, gall yr Aseswyr Budd Pennaf ddod ar draws sefyllfaoedd sydd y tu hwnt i'w profiad uniongyrchol ac mae potensial ar gyfer ynysiad proffesiynol o fewn tîm bach. Mae'r methiant i gynnal cronfa ehangach o Aseswyr Budd Pennaf yn cynyddu'r risg yma. Roedd cronfa o Aseswyr Budd Pennaf i'w chael yn wreiddiol a honno'n cynnwys 23 o weithwyr – nyrsys, gweithwyr cymdeithasol ac Ymarferwyr

¹¹ Gweler y Rhestr Termau

lechyd Meddwl Cymeradwy – a oedd yn ategu gwaith y tîm. Dim ond dau ymarferydd o'r gronfa sydd wedi parhau i gynnig unrhyw gymorth. Mae'r rhan fwyaf wedi tynnu'n ôl erbyn hyn am nad ydynt yn teimlo'n hyderus i gyflawni'r rôl.

Gall tîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid gael cyngor cyfreithiol gan gwmni blaenllaw o gyfreithwyr. Mae aelodau o'r tîm yn cael amser a chymorth ychwanegol trwy'r Uwch Reolwr Datblygiad a Phartneriaeth sy'n wybodus iawn ac a helpodd i sefydlu'r trefniadau gwreiddiol. Er nad hi yw'r rheolwr llinell uniongyrchol mwyach, mae'n dal i fod yn arweinydd strategol ac mae'n adrodd wrth y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion a phartneriaid Consortiwm Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid Gwent. Mae'r ddau lofnodwr ar gyfer awdurdodiadau yn y Bwrdd lechyd ar reng uchel iawn ac yn brofiadol iawn.

Nid oes unrhyw staff gan Gyngor Sir Fynwy sy'n Aseswyr Budd Pennaf. Mewn cynghorau eraill, lle mae Aseswyr Budd Pennaf o fewn timau rheoli gofal y Gwasanaethau Oedolion, maent yn gweithredu fel adnodd arbenigol a cheir tystiolaeth bod hyn yn codi ymwybyddiaeth pawb o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Mae tîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cynnig cyngor arbenigol ond nid ydynt ar gael mor rhwydd ar gyfer trafodaeth anffurfiol ag ydyw Aseswyr Budd Pennaf mewn timau rheoli gofal.

Nid oes cynllun i adfer y gronfa o Aseswyr Budd Pennaf. Nid yw'r Cyngor yn ystyried bod digon o allu i ryddhau staff i hyfforddi fel Aseswyr Budd Pennaf ac yna i wneud y gwaith. Fodd bynnag, roedd rhai rheolwyr gofal y cyfnewid â hwy yn ystod yr arolygiad yn dangos dealltwriaeth dda am y Ddeddf Galluedd Meddyliol ar y cyfan ac am y Trefniadau Diogelu, gan gynnwys atgyfeiriadau trydydd parti. Fe ddywedon nhw yr hoffent ymgymryd â rôl Aseswr Budd Pennaf pe na bai'r maen prawf presennol yn ei gwneud yn ofynnol cymhwyso'n Ymarferydd lechyd Meddwl Cymeradwy yn gyntaf. Mae prinder Ymarferwyr lechyd Meddwl Cymeradwy gan fod llawer o weithwyr cymdeithasol y Cyngor yn gyndyn o ymgymryd â'r rôl y tu allan i'r Timau lechyd Meddwl Cymunedol. Dywedwyd wrth arolygwyr fod tueddiad i weithwyr cymdeithasol ofyn i Ymarferwyr lechyd Meddwl Cymeradwy ymgymryd â rolau megis asesu galluedd meddyliol, fel pe bai hon yn dasg arbenigol. Mae angen datrys y gwrthddweud ymddangosol hwn. Mae deall y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn weithgaredd prif-ffrwd a ddylai danategu gwybodaeth a sgiliau'r holl weithwyr cymdeithasol a rheolwyr gofal mewn Gwasanaethau Oedolion.

Yn y Bwrdd lechyd, canfu arolygwyr wybodaeth a dealltwriaeth eang ymhlith rheolwyr a staff. Roedd hyn yn amrywio o ymarferwyr sy'n gymwys a gwybodus iawn i eraill a oedd yn ddiwyll ynglŷn â'u diffyg hyder a dealltwriaeth. Nid yw'r defnydd o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi'i sefydlu fel rhan annatod o'u harferion gweithio o ddydd i ddydd. O ganlyniad mae'n bosibl nad yw asesiadau o alluedd meddyliol a'r gallu i gydsynio ag achosion posibl o golli rhyddid yn digwydd yn rheolaidd.

Mae hyfforddiant wedi bod yn cael blaenoriaeth uchel dros y blynyddoedd, gydag aelodau o dîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn darparu llawer o'r mewnbwn. Roedd hyfforddiant ymwybyddiaeth cychwynnol ac yna hyfforddiant diweddarau ar gyfer staff darparwyr mewn cartrefi gofal ac ar wardiau'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr, fel a ddangosir gan yr adborth ysgrifenedig. Fodd bynnag, gan fod tîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi datblygu ffocws cynyddol ar ateb y galw am asesiadau gan Aseswyr Budd Pennaf, mae'r hyfforddiant wedi lleihau'n sylweddol. Dywedodd staff ieuchyd nad ydynt yn meddwl bod e-ddysgu'n effeithiol, yn enwedig gan nad oes agwedd ymarferol yn gysylltiedig â'r cynnwys damcaniaethol. Roedd darparwyr mewn cartrefi gofal y cysylltwyd â hwy yn ystod yr arolygiad yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant a roddwyd yn y gorffennol ac maent hefyd wedi comisiynu eu hyfforddiant eu hunain o ffynonellau eraill. Dywedodd gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr gofal o'r Cyngor y byddent yn gwerthfawrogi hyfforddiant pellach ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol a dyfarniad y Goruchaf Lys¹². Roedd staff y siaradwyd gyda hwy yng nghartref gofal y Cyngor ei hun hefyd yn cydnabod bod angen hyfforddiant pellach, er gwaethaf arbenigedd y rheolwr cofrestredig.

5. Arweinyddiaeth a llywodraethu

Pan gafodd y Trefniadau Diogelu eu cyflwyno yn 2009, roedd trefniadau llywodraethu a rheoli ar gyfer tîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi'u cynllunio'n dda. Roedd fframwaith llywodraethu eglur, gydag eglurder o ran rôl pob partner yn y Consortiwm. Roedd gan bob corff goruchwyliol lofnodwyr dynodedig ar gyfer awdurdodiadau. Cafodd polisiau a gweithdrefnau eu rhoi ar waith ar gyfer tîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, awdurdodau rheoli a chyrrff goruchwyliol. Cawsant eu hadolygu yn 2011. Mae angen eu diweddarau yn awr i adlewyrchu newidiadau mewn cyfraith achos gan gynnwys dyfarniad y Goruchaf Lys.

Mae tîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi bod yn darparu gwybodaeth reolaidd am berfformiad. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn darparu adroddiadau blynyddol cryno ar gyfer ei bartneriaid yn y Consortiwm. Roedd yr adroddiad blynyddol diweddaraf, dyddiedig Awst 2013, yn cydnabod pwysau sylweddol ar dîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid o ran y gweithlu oherwydd yr anghydbwysedd rhwng y galw a'r adnoddau a oedd ar gael. Roedd hefyd yn cydnabod yr anhawster o ran defnyddio gwasanaeth Aseswyr Budd Pennaf o'r tu allan i'r tîm. Arweiniodd hyn at gytundeb i recriwtio Aseswr Budd Pennaf pellach yn ogystal â newid enw rôl yr arweinydd tîm i rôl Uwch Aseswr Budd Pennaf. Serch hynny, rhwng mis Medi 2013 a mis Mawrth 2014, fe wnaeth un Aseswr Budd Pennaf y gwaith i gyd bron nes i'r Uwch Aseswr Budd Pennaf ymuno â'r tîm. Roedd swydd wag yn dal i fodoli yn y tîm ar adeg yr arolygiad. Roedd yr amser rhwng gwneud y penderfyniadau ym mis Awst 2013 a gweithredu newid yn annerbyniol o hir.

¹² Gweler y Rhestr Termau

Mae tîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael ei gydnabod fel adnodd pwysig ar gyfer pob un o'r chwe sefydliad. Dangoswyd hyn trwy'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd i recriwtio Aseswyr Budd Pennaf pellach i'r tîm i ateb y galw cynyddol o ganlyniad i ddyfarniad y Goruchaf Lys. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd yr Aseswyr Budd Pennaf gweithredol yn gallu cwrdd ag amserlenni'r ddeddfwriaeth ar gyfer asesiadau. Roedd yr Uwch Aseswr Budd Pennaf yn amlygu asesiadau a oedd yn hwyr i'r cyrff goruchwyliol yn y Consortiwm trwy negeseuon e-bost wythnosol, gan eu bod yn dal yn atebol am unrhyw ganlyniadau oherwydd yr oedi. Roedd y Cyngor yn ymwybodol o hyn ond nid oedd wedi gwneud unrhyw gynlluniau pendant i ymdrin â'r materion ar adeg yr arolygiad; fodd bynnag, roedd opsiynau wrthi'n cael eu hystyried.

Roedd y mewnbwn gan bartneriaid tuag at gydweithio o fewn y Consortiwm yn gadarn iawn ar y dechrau, ond yna daeth yn llai gweithredol. Fodd bynnag, ers dyfarniad y Goruchaf Lys, a chan gael eu hysgogi gan bapurau briffio rhagweithiol gan reolwyr y Bwrdd Iechyd, mae ei aelodau wedi bod yn gwerthuso'r cynnydd posibl yn y galw a'r risgiau os na ellir ateb y galw. Roeddent yn gweithio ar gynllun gweithredu i ddatrys yr anawsterau ar adeg yr arolygiad.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i dderbyn adroddiadau rheolaidd mewn perthynas â'r Trefniadau Diogelu. Ym mis Ebrill eleni y cafodd y diweddaraf o'r rhain, a hwnnw'n hysbysu rheolwyr ar reng uchel iawn mewn modd rhagweithiol ynghylch risgiau posibl a allai ddeillio o fethu â rhoi sylw llawn i'w cyfrifoldebau. Mae wedi bod yn rhagweithiol o ran sicrhau bod ei awdurdodau rheoli (uwch reolwyr wardiau) wedi cael eu hysbysu ynghylch dyfarniad y Goruchaf Lys a'i oblygiadau. Mae hefyd wedi anfon papurau briffio at sefydliadau eraill y gallai'r dyfarniad effeithio arnynt, megis darparwyr llety â chymorth, lle na all y Trefniadau Diogelu fod yn gymwys. Nid yw'r Cyngor wedi bod yn adrodd yn rheolaidd ar ganlyniadau'r adroddiadau blynyddol wrth ei Bwyllgor Craffu, er ei fod bellach yn briffio'i aelodau etholedig ynghylch y goblygiadau o ran adnoddau sy'n debygol o ddeillio o ddyfarniad y Goruchaf Lys. Mae angen i'r Cyngor ystyried ei strwythurau ymhellach i sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau'n bodoli. Nid yw Adroddiad Statudol Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol wedi rhoi gwybodaeth am y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Mae'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor ill dau wedi profi newidiadau sylweddol i'w priod strwythurau ers 2009. Yn y Cyngor, mae rhai rolau wedi cael eu cyfuno. Y swyddog arweiniol ar gyfer gwasanaethau darparwyr (sy'n gweithredu fel yr Unigolyn Cyfrifol dan ddeddfwriaeth safonau gofal) yw'r pennaeth comisiynu hefyd. Mae'r person hwn yn atebol i Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion sy'n un o ddau lofnodwr ar gyfer awdurdodiadau ar ran y corff goruchwyliol. Er bod y ddeddfwriaeth a'r canllawiau'n ei gwneud yn glir y gall un corff weithredu yn y ddau gymhwyster, maent hefyd yn cydnabod bod potensial ar gyfer gwrthdaro buddiannau. Maent yn argymhell bod y swyddogaethau gwahanol yn cael eu gwahanu'n eglur o fewn strwythurau rheoli'r sefydliad. Mae angen i'r Cyngor ystyried ei strwythurau i sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau'n bodoli.

Pan gafodd y Trefniadau Diogelu eu cyflwyno, roedd pum bwrdd iechyd lleol (cyrff goruchwyliol) a oedd yn comisiynu, a hwythau'n gysylltiedig ag ymddiriedolaeth ddarparu fawr (awdurdod rheoli). Ers hynny mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi bod yn cyflawni'r ddwy swyddogaeth, ac mae wedi eu gwahanu'n eglur fel sy'n ofynnol.

Dim ond yn ddiweddar y mae effaith bosibl y Trefniadau Diogelu ar gontractau cartrefi gofal wedi cael ei chydabod ym maes comisiynu gwasanaethau cymdeithasol. Nid yw gofynion sicrhau ansawdd y Cyngor yn cyfeirio at y Ddeddf Galluedd Meddyliol na'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar hyn o bryd er bod y fanyleb gwasanaeth bresennol ar gyfer gofal preswyl, gofal nyrsio a gofal iechyd parhaus yn cael ei hadolygu. Yn y dyfodol bydd yn ei gwneud yn ofynnol i staff mewn sefydliadau darparu gael hyfforddiant gorfodol ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Mae goblygiadau'r dyfarniad diweddar ar gyfer llety â chymorth a darpariaeth arall ym maes gofal cymdeithasol yn cael eu gwerthuso. Mae cysylltiadau gwell yn cael eu creu rhwng monitro contractau, adolygiadau rheoli gofal a'r Trefniadau Diogelu. Mae'r trefniadau ar gyfer monitro contractau iechyd lle ceir gofal nyrsio mewn cartrefi gofal wedi bod yn fwy rhagweithiol er nad oes tystiolaeth bod hyn yn bwydo i mewn i gontractau gofal cymdeithasol eto.

Mae nifer fach o staff wedi bod yn gweithio'n galed iawn i ddarparu gwasanaeth y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn foddhaol ar gyfer pobl agored i niwed ac maent wedi llwyddo i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae'r galw cynyddol wedi dangos breuder y model ar gyfer tîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Mae angen i'r Cyngor weithio gyda'i bartneriaid yng Nghonsortium Gwent i weithredu ar eu cyfrifoldebau statudol fel cyrff goruchwyliol ac i gefnogi tîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid i sicrhau ansawdd a chynaliadwyedd y gwasanaeth.

Argymhellion

1. Dylai'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd fel rhan o'r Consortium sicrhau bod y nifer o Aseswyr Budd Pennaf y cytunwyd arno'n cael ei gyrraedd yn gyflym i ateb gofynion y ddeddfwriaeth.
2. Wrth adolygu'r gallu o ran Aseswyr Budd Pennaf yng ngoleuni dyfarniad y Goruchaf Lys, dylai'r Cyngor ailystyried ei benderfyniad i beidio â lleoli rhywfaint o'i swyddogaeth Aseswyr Budd Pennaf yn nhimau rheoli gofal ei Wasanaethau Oedolion. Rhaid iddo sicrhau bod gwybodaeth am y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael ei sefydlu fel rhan annatod o'r holl rolau rheoli gofal. Lle ceir achosion awdurdodedig o golli rhyddid, dylai adolygiadau rheoli gofal adlewyrchu ystyriaeth i'w canlyniad a'u heffeithiolrwydd.
3. Dylai'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd adolygu'r modd y maent yn ymgysylltu â phersonau perthnasol, eu teuluoedd a gofalwyr anffurfiol a gweithredu adborth ar eglurder yr wybodaeth sydd eisoes ar gael. Dylent gynnwys manylion o ran sut i gyfleu canmoliaeth, pryderon a chwynion. Dylai'r

Cyngor weithio gyda thîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid i sicrhau bod ei ddinasyddion yn elwa o'r gwasanaeth Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol lle y bo'n briodol.

4. Dylai'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd fel rhan o'r Consortiwm fynd ati ar frys i ddatblygu mecanweithiau sicrhau ansawdd cadarn, fel bod asesiadau ac awdurdodiadau'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, canllawiau a chyfraith achos. Dylai'r holl bartneriaid yn y Consortiwm gymryd cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd ochr yn ochr â thîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.
5. Dylai'r Cyngor archwilio'i drefniadau rheoli i sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau rhwng ei swyddogaethau fel corff goruchwyliol ac fel awdurdod rheoli.
6. Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cyflwyno gwybodaeth am y Trefniadau Diogelu mewn adroddiadau i uwch reolwyr ac aelodau etholedig yn rheolaidd yn unol ag amodau gorchwyl y Consortiwm.
7. Dylai'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd fel rhan o'r Consortiwm drafod pa un a ddylai ei Adroddiadau Blynyddol gael eu hystyried yn y Cyd-fwrdd Diogelu hefyd.
8. Dylai'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd fel rhan o'r Consortiwm sicrhau bod hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar gyfer rheolwyr a staff ym mhob lleoliad gofal cymdeithasol a gofal iechyd perthnasol yn dod yn orfodol ac yn cael ei ddarparu'n rheolaidd. Dylai'r Consortiwm archwilio effeithiolrwydd yr holl hyfforddiant o'r fath.